Lefel 5

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

IONAWR 2020

Cynnwys

	Rhif tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y Cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Y Cynllun asesu	3
Deilliannau	4
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	4
Gofynion rhesymeg	5
Gofynion gweithrediadol	6
Adodiad A	8

Mae hon yn **Ddogfen Reoliadol** o dan **Amod B7** yr *Amodau Cydnabod Safonol (Hydref 2018)*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoliadol.*

[1] https://cymwysterauCymru.org/english/publications/standard-conditions-of-recognition/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn sefydlu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, oedd yn cynnwys grwpiau ffocws a holiaduron ar-lein. Roedd y meini prawf hyn yn cynnwys y gofynion mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu gwireddu wrth ddatblygu'r fanyleb a deunyddiau asesu ar gyfer cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer y rheiny sy'n gweithio mewn swydd reoli mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cymhwyster wedi cael ei gynllunio i'w gyflwyno gan amrywiaeth o ddarparwyr dysgu gan gynnwys darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach, i ddysgwyr sy'n 18 oed neu'n hŷn. Mae'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar y wybodaeth a ddysgwyd yn y cymhwyster Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Pan fo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Daw'r meini prawf cymeradwyo i rym o fis Ionawr 2020 a chânt eu hadolygu yn 2022.

Fis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu cyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant[2] i'w dysgu ar raglen ddysgu a ariannwyd yn gyhoeddus yng Nghymru. Roedd y gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.

Caiff holl gymwysterau'r gyfres eu cyfyngu i un ffurf fesul cymhwyster am gyfnod o bum mlynedd. Ar gyfer y cymhwyster hwn, mae'r cyfnod yn cychwyn ar 1 Medi 2020. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu sy'n cael dyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng Ionawr 2017 ac Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi cytundebu consortiwm o City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a darparu holl gymwysterau'r gyfres ar y cyd.

Dim ond cymhwyster sy'n cwrdd â'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol* [3] y gwnaiff Cymwysterau Cymru ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu cymwysterau i gwrdd â'r gofynion hyn mae'n rhaid i'r

[2] http://cymwysterauCymru.org/media/2535/230517-determination-to-restrict-hsc-final-e.pdf
[3] http://cymwysterau.Cymru/english/our-work/regulating-awarding-bodies/monitoring-awarding-bodies/

cyrff dyfarnu ystyried y *Mynediad Teg drwy Ddylunio*[4]. Mae'n rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynir hefyd gwrdd â'r holl ofynion a nodir yn y cytundeb consesiwn a ddyfernir yn ystod y camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a darparu.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rheiny a bennwyd yn yr *Amodau Safonol Cydnabod*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd yn cael blaenoriaeth.

Strwythur y Cymhwyster

1. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer gynnig ardystiad cymhwyster gyda Chyfanswm Amser Cymhwyster o 1200 awr (120 credyd) a bydd rhaid ei diffinio yn nhermau Oriau Dysgu Dan Arweiniad.

2. Yn y cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer mae cynnwys gorfodol (Grŵp A) a chynnwys dewisol (Grŵp B) (gweler Atodiad A).

3. Teitl y cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau fydd:

Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.

4. Mae'n rhaid i ddyluniad Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer sicrhau:

   4.1 bod nodau ac amcanion y pwnc yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiadau er mwyn galluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth;

   4.2 ei fod yn helpu datblygiad dysgwyr o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

5. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer nodi unrhyw reolau cyfuno sy'n berthnasol i'r cynnwys dewisol.

Nodau ac amcanion y pwnc

6. Mae'n rhaid i Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer alluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac arfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos eu bod:

[4] https://cymwysterauCymru.org/media/4739/fair-access-by-design.pdf

6.1 yn deall amrywiaeth o gyd-destunau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli a'u rhoi ar waith;

6.2 yn myfyrio ar eu harddulliau arwain a rheoli eu hunain a rhai pobl eraill a deall sut mae'r rhain yn effeithio ar y rheiny sy'n gweithio gyda nhw, yn eu lleoliad a thu hwnt;

6.3 yn gwella perfformiad arwain a rheoli mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol;

6.4 yn arwain a rheoli dulliau sy'n canolbwyntio ar bobl/plant yn ymarferol;

6.5 yn arwain a rheoli gwelliant gwasanaeth o fewn iechyd a gofal cymdeithasol;

6.6 yn gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol er mwyn gwneud penderfyniadau doeth sy'n cynnwys creu a dehongli data;

6.7 yn defnyddio sgiliau cyfathrebu, rhifedd a chymhwysedd digidol yn eu swydd fel sy'n briodol.

Cynnwys y pwnc

7. Mae'n rhaid i gynnwys manyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

8. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer gynnwys:

8.1. y cynnwys gorfodol (Grŵp A) a nodir yn Atodiad A; a'r

8.2. cynnwys dewisol (Grŵp B) a nodir yn Atodiad A.

Y cynllun asesu

9. Caiff asesiad Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer ei osod yn allanol, ei asesu'n allanol, a chaiff ei ansawdd ei sicrhau'n allanol. Bydd yr asesiad yn cynnwys:

9.1. portffolio o dystiolaeth sy'n cynnwys cofnodion o arsylwi ar arfer;

9.2. prosiect busnes; a

9.3. thrafodaeth broffesiynol.

10. Mae'n rhaid i'r asesiad nodi pa fath o dystiolaeth a faint ohoni i'w chasglu er pwrpasau asesu.

11. Mae'n rhaid i'r cymhwyster fod o anhawster cymaradwy i bob dysgwr, waeth pa unedau a astudir.

12. Mae'n rhaid i'r cynllun asesu sicrhau bod:

    12.1 y meini prawf a'r gofynion am yr ymarfer a wneir, ac asesiad o'r ymarfer hwn, yn fanwl iawn;

    12.2 unrhyw amodau a ganiateir drwy efelychu yn fanwl iawn, gan gynnwys beth fyddai'n cyfrif fel awyrgylch gwaith realistig.

13. Mae'n rhaid cael tystiolaeth o'r deilliannau dysgu ar gyfer y cynnwys gorfodol a dewisol a astudir drwy'r asesiadau.

14. Mae'n rhaid i'r meini prawf marcio ddangos sut mae pob agwedd o asesu'n gysylltiedig â'r deilliannau dysgu.

15. Mae'n rhaid i'r cyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer fod ar gael drwy gydol y flwyddyn.

16. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer gynnwys manylion ynghylch cyfleoedd i ailgyflwyno asesiadau.

Deilliannau

17. Caiff dysgwyr sy'n cwblhau pob asesiad gofynnol yn llwyddiannus (gan gwrdd ag unrhyw reolau cyfuno) eu hardystio.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

18. Wrth gyflwyno cymhwyster i'w gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, mae'n rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu:

    18.1 manyleb;

    18.2 detholiad sy'n cynrychioli sampl o ddeunyddiau asesu;

    18.3 dogfen esboniadol (dogfen rhesymeg) sy'n amlinellu'r sail resymegol dros brif nodweddion dylunio'r cymhwyster arfaethedig a'u haliniad i ganfyddiadau *Adolygiad y Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*[5].

[5] http://cymwysterau.Cymru/english/cymwysterau/vocational-cymwysterau/sector-reviews/iechyd-social-care-and-childcare/

Gofynion rhesymeg

19. Pwrpas y ddogfen rhesymeg yw cefnogi'r adolygiad o'r cymwysterau a'r broses gymeradwyo ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi..

20. Mae'n rhaid i'r ddogfen rhesymeg gynnwys eglurhad dros:

    20.1 strwythur y cymhwyster, gan egluro'r rhesymau dros y ffordd mae'r cynnwys wedi cael ei strwythuro a dangos sut y cafwyd cymaroldeb rhwng gwahanol opsiynau;

    20.2 dull datblygu ac adfywio'r asesiadau dros amser;

    20.3 y strwythur asesu, gan gynnwys, nifer, dyraniad marciau a hyd asesiadau pan fo'n briodol;

    20.4 argaeledd cyfleoedd asesu a'r dull o sicrhau bod y cyfleoedd hynny ar gael drwy gydol y flwyddyn;

    20.5 dehongli'r deilliannau dysgu a sut maen nhw'n berthnasol i wahanol gydrannau'r asesiad;

    20.6 dyluniad y sampl o ddeunyddiau asesu a'r canllawiau, gan gynnwys y math a'r ystod o dasgau asesu ar hyd a lled y cymhwyster a'u perthynas â'r deilliannau dysgu;

    20.7 dyluniad y meini prawf marcio a sut i'w defnyddio;

    20.8 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

    20.9 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymwysterau hyn yn gyson ac i'r lefel briodol, gan gynnwys y broses o osod a chynnal safonau;

    20.10 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys sail resymegol dros y ffin pasio/methu arfaethedig ar lefel asesu ac ar lefel y cymhwyster.

Gofynion gweithrediadol

21. Mae'n rhaid i'r fanyleb a/neu'r wybodaeth atodol nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrwydd ansawdd) ar gyfer aseswyr a'r rheiny sy'n sicrhau ansawdd.

22. Mae'n rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys manylion manwl am y gofynion gweithrediadol, gan gynnwys:

    22.1 ceisiadau;

    22.2 sicrhau ansawdd;

    22.3 prosesau asesu allanol.

Gwybodaeth bellach	Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at: Ymholiadau Cymwysterau Cymru Adeilad Q2 Lôn Pencarn Parc Imperial Coedcernyw Casnewydd NP10 8AR Enquires@cymwysterauCymru.org

Atodiad A - Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer gynnwys y cynnwys a'r deilliannau dysgu canlynol. Mae hyn yn cynrychioli cyfanswm o 100% o holl gynnwys a deilliannau dysgu'r cymhwyster.

Grŵp A: Cynnwys gorfodol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarferol gorfodol cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.

Meysydd Pwnc	Deilliannau Dysgu
1. Arwain a rheoli arfer sy'n canolbwyntio ar bobl/plant	1.1. Arwain a rheoli arfer sy'n helpu unigolion i gyflawni deilliannau positif 1.2. Arwain a rheoli arfer sy'n hybu lles holistaidd unigolion 1.3. Arwain a rheoli arfer sy'n hybu cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar bobl/plant 1.4. Arwain a rheoli cefnogaeth i newid a phontio
2. Arwain a rheoli arfer sy'n canolbwyntio ar bobl/plant drwy eiriolaeth annibynnol	2.1. Arwain a rheoli arfer sy'n helpu unigolion i gyflawni deilliannau positif 2.2. Arwain a rheoli arfer sy'n hybu lles holistaidd unigolion 2.3. Arwain a rheoli cefnogaeth i newid
3. Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol	3.1. Arwain datblygiad diwylliant positif sy'n cymell ac ysbrydoli 3.2. Rheoli gwerthoedd yn seiliedig ar recriwtio gweithwyr 3.3. Rheoli gwerthoedd yn seiliedig ar sefydlu gweithwyr 3.4. Rheoli datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr drwy oruchwylio ac adolygu perfformiad 3.5. Rheoli dirprwyo tasgau 3.6. Deall gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol er mwyn mynd i'r afael â chamymddwyn neu berfformiad anfoddhaol 3.7. Rheoli gwrthdaro mewn timau a pherfformiad gwael 3.8. Arwain a rheoli arloesedd a newid
4. Arwain a rheoli safon y gwasanaeth a ddarperir er mwyn cwrdd â gofynion	4.1. Deall damcaniaethau, dulliau a modelau y gellir eu defnyddio i helpu'r gwasanaeth a ddarperir i gwrdd â gofynion safonau ansawdd

deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol	4.2. Nodi prif ddangosyddion perfformiad y gwasanaeth a ddarperir a dulliau o'u mesur 4.3. Rheoli gweithrediad systemau, gweithdrefnau ac arferion er mwyn monitro, mesur a gwella perfformiad y gwasanaeth a ddarperir 4.4. Defnyddio gwersi a ddysgwyd gan ganmoliaethau, pryderon a chwynion i wella'r gwasanaeth a ddarperir
5. Arfer proffesiynol	5.1. Deall rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd rheolwyr iechyd a gofal cymdeithasol 5.2. Datblygu sgiliau arwain ac arferion moesegol sy'n cydnabod a gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth 5.3. Sicrhau bod eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain yn cwrdd â gofynion a safonau deddfwriaethol a Chodau Ymddygiad ac Arferion Proffesiynol 5.4. Datblygu partneriaethau gweithio effeithiol 5.5. Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyflwyno, cofnodi, adrodd a storio gwybodaeth
6. Arwain a rheoli arfer sy'n hybu gwarchod unigolion	6.1. Arwain a rheoli cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol sy'n ymwneud â gwarchod unigolion 6.2. Datblygu a chynnal gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â gwarchod unigolion 6.3. Arwain a rheoli arfer sy'n diogelu unigolion rhag niwed a cham-drin 6.4. Arwain a rheoli arfer sy'n cefnogi hawliau, lles a pherthnasoedd er mwyn hybu gwarchod 6.5. Arwain a rheoli arfer sy'n cefnogi unigolion i gadw eu hunain yn ddiogel
7. Arwain a rheoli iechyd, bod yn ddiogel a diogelwch yn y gweithle	7.1. Deall anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer iechyd, bod yn ddiogel a diogelwch yn y gweithle 7.2. Monitro a chynnal cydymffurfiaeth â gofynion iechyd, bod yn ddiogel a diogelwch 7.3. Rheoli peryglon salwch sy'n ymwneud â gwaith

Grŵp B: Cynnwys dewisol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarferol dewisol yn y cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.

Meysydd Pwnc	Deilliannau
8. Arwain a rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal	8.1. Rôl gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal 8.2. Arwain a rheoli arfer sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth benodol, gofynion rheoliadol, canllawiau polisi a safonau ar gyfer plant a phobl ifanc 8.3. Arwain y defnydd o arfer ar sail tystiolaeth 8.4. Arwain a rheoli'r broses o asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu gofal plant 8.5. Arwain a rheoli cefnogaeth i blant cyn, yn ystod ac ar ôl newid a symud 8.6. Arwain a rheoli arfer sy'n helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad positif am eu hunain 8.7. Arwain a rheoli arfer sy'n helpu datblygiad a llwyddiant addysgiadol plant a phobl ifanc 8.8. Arwain defnydd a dealltwriaeth o ddatblygiad plentyn 8.9. Arwain a rheoli arfer sy'n defnyddio ymyriad cynnar ac atal er mwyn lleihau'r perygl o argyfyngau 8.10. Arwain a rheoli'r defnydd o feddyginiaeth i blant a phobl ifanc 8.11. Arwain a rheoli cefnogaeth i roi maeth a dŵr i blant a phobl ifanc
9. Arwain a rheoli'r gwasanaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc anabl	9.1. Datblygu dealltwriaeth o ganfyddiadau, safbwyntiau a natur anabledd 9.2. Arwain a rheoli arfer sy'n helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad positif am eu hunain 9.3. Arwain a rheoli cefnogaeth i blant yn ystod newid a phontio 9.4. Arwain a rheoli cefnogaeth i gyfathrebu effeithiol gyda phlant anabl 9.5. Arwain a rheoli cefnogaeth i roi maeth a dŵr i blant anabl 9.6. Arwain a rheoli'r defnydd o feddyginiaeth wrth weithio gyda phlant anabl

	9.7. Datblygu dealltwriaeth o gefnogaeth i ofal iechyd ar gyfer plant anabl 9.8. Arwain a rheoli arfer sy'n defnyddio ymyriad cynnar ac atal er mwyn lleihau'r perygl o argyfyngau 9.9. Arwain a rheoli arfer sy'n cynnwys teuluoedd/gofalwyr wrth gefnogi plant anabl
10. Arwain a rheoli cefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddefnyddio dulliau positif i gefnogi ymddygiad	10.1. Arwain a rheoli arfer sy'n mewnosod deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cenedlaethol/lleol a ategir gan ddulliau positif er mwyn lleihau arferion cyfyngol a chefnogi ymddygiad positif 10.2. Deall modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau moesegol, sy'n seiliedig ar werthoedd er mwyn lleihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol 10.3. Arwain a rheoli arferion er mwyn datblygu, gweithredu, monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau sy'n cefnogi ymddygiad positif unigolion 10.4. Arwain a rheoli'r arfer o ddefnyddio a lleihau ymyriadau cyfyngol yn ddiogel 10.5. Meini prawf asesu 10.6. Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion ac eraill ar ôl achosion o ymddygiadau heriol
11. Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain	11.1. Rheoli tîm gwasgaredig sy'n darparu gofal a chefnogaeth yn nhai unigolion 11.2. Arwain a rheoli cefnogaeth i weithlu gwasgaredig 11.3. Arwain a rheoli arfer sy'n cefnogi unigolion i gydbwyso hawliau, peryglon a chyfrifoldebau 11.4. Arwain a rheoli arfer sy'n cefnogi gofal a chefnogaeth hyblyg ac ymatebol a chymorth yn y cartref 11.5. Cynnal safonau ansawdd mewn gweithlu gwasgaredig 11.6. Cydweithio 11.7. Dilyniant busnes 11.8. Arwain a rheoli technoleg mewn gofal a chefnogaeth yn y cartref
12. Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal	12.1. Arwain a rheoli arfer sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth benodol a gofynion rheoliadol, canllawiau polisi a safonau ar gyfer cartrefi gofal

	12.2. Arwain ar ddyluniad a darpariaeth y gwasanaeth mewn ffordd sy'n cefnogi arfer sy'n canolbwyntio ar bobl a lles unigolion 12.3. Monitro, adolygu a gwerthuso'r defnydd o arfer cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol a rhoi strategaethau ar waith i'w lleihau 12.4. Arwain a rheoli arfer sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd i ymdopi â newid a phontio 12.5. Arwain a rheoli arfer sy'n hybu iechyd a lles unigolion 12.6. Arwain a rheoli cefnogaeth i'r Gymraeg mewn cartrefi gofal 12.7. Arwain a rheoli arfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes mewn cartrefi gofal
13. Arwain a rheoli arfer mewn gofal dementia	13.1. Arwain a rheoli arfer sy'n mewnosod deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol er mwyn cefnogi hawliau unigolion sy'n byw gyda dementia 13.2. Arwain a rheoli cefnogaeth i iechyd a lles unigolion sy'n byw gyda dementia 13.3. Arwain a rheoli cefnogaeth i gyfathrebu'n effeithiol gydag unigolion sy'n byw gyda dementia 13.4. Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i addasu i ddiagnosis o ddementia a byw gyda dementia 13.5. Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion sy'n byw gyda dementia i gyflawni deilliannau positif 13.6. Arwain a rheoli cynllunio cefnogaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes 13.7. Arwain a rheoli arfer sy'n datblygu dulliau positif o leihau'r defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol
14. Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl	14.1. Arwain a rheoli arfer sy'n hybu lles mewn gwasanaethau iechyd meddwl 14.2. Arwain a rheoli arfer sy'n herio stigma, gwahaniaethu a gwahaniaethau pŵer 14.3. Arwain, rheoli a hyrwyddo arfer sy'n defnyddio deddfwriaeth, polisi a chanllawiau er mwyn cefnogi hawliau unigolion

	14.4. Arwain a rheoli arfer sy'n defnyddio damcaniaethau, modelau a dulliau ar gyfer cefnogaeth ac adferiad unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl 14.5. Arwain a rheoli cefnogaeth barhaus i unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl 14.6. Arwain a rheoli arfer sy'n cefnogi unigolion sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd 14.7. Arwain, rheoli a hyrwyddo arfer sy'n sicrhau gweithio effeithiol mewn partneriaeth 14.8. Arwain a rheoli arfer sy'n hyrwyddo cydbwysedd o ran hawliau, cyfrifoldebau a pheryglon wrth weithio gydag unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl 14.9. Arwain a rheoli arfer sy'n lleihau peryglon digwyddiadau andwyol a rheoli sefyllfaoedd argyfyngus yn effeithiol 14.10. Arwain gwelliannau yn eich lleoliad a chefnogi dysgu a datblygiad parhaus
15. Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth	15.1. Canfyddiadau a safbwyntiau ynghylch anabledd dysgu ac awtistiaeth 15.2. Arwain a rheoli arfer ar gyfer dulliau sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n seiliedig ar hawliau, lles, perthnasoedd positif a chyfranogiad cymunedol 15.3. Arwain a rheoli arfer sy'n cefnogi cyfathrebu effeithiol 15.4. Arwain a rheoli'r defnydd o gynllunio sy'n canolbwyntio ar bobl a Chefnogaeth Fyw 15.5. Deall pwysigrwydd rhywioldeb, mynegiant rhywiol a iechyd rhywiol 15.6. Arwain a rheoli cefnogaeth i hybu iechyd, atal ac ymyriad cynnar er mwyn lleihau'r perygl o iechyd gwael 15.7. Deall Cefnogaeth Ymddygiadol Bositif
16. Arwain gwaith gydag unigolion â nam ar y synhwyrau	16.1. Canfyddiadau, mathau a chyd-destunau 'nam ar y synhwyrau' 16.2. Deall deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau a ategir gan ddyluniad gwasanaeth a darpariaeth ar gyfer unigolion â nam ar y synhwyrau 16.3. Defnyddio modelau i hybu cydraddoldeb a chynhwysedd

	16.4. Arwain a rheoli'r gwasanaeth a ddarperir i unigolion sydd wedi datblygu nam ar y synhwyrau 16.5. Datblygu gwasanaeth ar gyfer unigolion sy'n ddiwylliannol Fyddar/defnyddio Iaith Arwyddion Prydain 16.6. Deall rôl gweithwyr proffesiynol cyfathrebu ac iaith 16.7. Arwain a rheoli cefnogaeth i dechnoleg gynorthwyol 16.8. Arwain a rheoli cefnogaeth i gyfathrebu'n effeithiol
17. Arwain a rheoli gwaith gwasanaethau cam-drin sylweddau	17.1. Arwain a rheoli arfer sy'n mewnosod deddfwriaeth, polisïau, canllawiau a safonau cenedlaethol i gynllun a chyflwyniad gwasanaethau cam-drin sylweddau 17.2. Arwain a rheoli'r broses gynllunio ar gyfer unigolion sy'n cam-drin sylweddau 17.3. Arwain, rheoli a hyrwyddo gwasanaethau sy'n cefnogi dulliau moesegol, sy'n seiliedig ar werthoedd ac yn canolbwyntio ar bobl gydag unigolion sy'n cam-drin sylweddau. 17.4. Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion yn dilyn sefyllfaoedd heriol
18. Arwain a rheoli gwasanaethau lleoli oedolion/cysylltu bywydau	18.1. Arwain a rheoli arfer sy'n mewnosod ethos Cysylltu Bywydau ac yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol gwasanaethau Lleoli Oedolion 18.2. Arwain a rheoli'r broses o recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau 18.3. Arwain a rheoli cefnogaeth i leoliad/trefniant rhwng unigolion a gofalwyr 18.4. Arwain a rheoli cefnogaeth i ofalwyr i ddarparu lleoliadau/trefniadau Cysylltu Bywydau
19. Arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol	19.1. Datblygu dealltwriaeth o eiriolaeth annibynnol 19.2. Gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir 19.3. Arwain a rheoli'r broses eirioli 19.4. Defnyddio eiriolaeth systemig i ddylanwadu ar newid 19.5. Datblygu perthnasoedd comisiynu sy'n ategu egwyddorion eirioli allweddol

20. Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr	20.1. Cyd-destun gofalwyr yng Nghymru 20.2. Deall sut mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru) 2014 wedi cael ei sefydlu fel fframwaith deddfwriaethol ar gyfer asesu a chefnogi gofalwyr 20.3. Arwain arfer sy'n hyrwyddo cyfraniad gofalwyr i'r broses asesu a chynllunio gydag unigolion 20.4. Arwain arfer sy'n cefnogi'r broses asesu a chynllunio ar gyfer gofalwyr 20.5. Defnyddio casgliad o ddata i ddylanwadu ar newid
21. Arwain cefnogaeth ar gyfer gofalwyr	21.1. Cyd-destun gofalwyr yng Nghymru 21.2. Deall sut mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru) 2014 wedi cael ei sefydlu fel fframwaith deddfwriaethol ar gyfer asesu a chefnogi gofalwyr 21.3. Arwain arfer sy'n hyrwyddo cyfraniad gofalwyr i'r broses asesu a chynllunio gydag unigolion 21.4. Arwain arfer sy'n cefnogi'r broses asesu a chynllunio ar gyfer gofalwyr
22. Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol	22.1. Deall pwrpas ac egwyddorion trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol 22.2. Arwain a rheoli'r gwasanaeth a ddarperir yn effeithiol trwy ddefnyddio trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol 22.3. Arwain a rheoli darpariaeth y cynlluniau a gytunwyd 22.4. Gwerthuso effeithiolrwydd gwaith tîm rhyngbroffesiynol yn feirniadol
23. Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr	23.1. Deall rôl gwirfoddolwyr wrth ddarparu gwasanaeth 23.2. Paratoi i ddefnyddio gwirfoddolwyr wrth ddarparu'r gwasanaeth 23.3. Arwain a rheoli'r broses o recriwtio a dethol gwirfoddolwyr 23.4. Arwain a rheoli cefnogaeth i wirfoddolwyr
24. Arwain a rheoli prosesau a chynlluniau busnes	24.1. Defnyddio egwyddorion cynlluniau busnes 24.2. Datblygu, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau strategol a gweithrediadol ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir
25. Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol	25.1. Asesu a chynllunio gofal a chefnogaeth

	25.2. Defnyddio gwybodaeth asesu a chynlluniau gofal a chefnogaeth i ddatblygu cynlluniau personol